# SL(5)566 - Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn a wnaed o dan Ddeddf Addysg 2002 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) 2014 (OS 2014/1249) ('Rheoliadau 2014'). Mae Rheoliadau 2014 yn darparu bod yn rhaid i awdurdodau lleol hysbysu Gweinidogion Cymru am y dyddiadau ysgol y penderfynwyd arnynt o leiaf ddwy flynedd ymlaen llaw (h.y. erbyn y diwrnod gwaith olaf ym mis Awst ddwy flynedd cyn y flwyddyn ysgol dan sylw).

Mae'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2014 ac yn benodol, y dyddiad yn rheoliad 4 ar gyfer y flwyddyn ysgol 2022/23 fel bod yn rhaid i awdurdodau lleol anfon hysbysiad at Weinidogion Cymru am ddyddiadau eu tymhorau arfaethedig erbyn 31 Rhagfyr 2020 yn lle'r diwrnod gwaith olaf ym mis Awst 2020.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn

**1) Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r sylwadau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Memorandwm Esboniadol ynghylch hawliau plant - *"Rydym wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. Ni nodwyd gwrthdaro â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac nid oes effaith negyddol ar blant na phobl ifanc. Diben Rheoliadau Dyddiadau Tymhorau 2020 yw sicrhau y gall rhieni, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill flaengynllunio ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23 heb faich diangen ar awdurdodau lleol yn ystod argyfwng y coronafeirws (COVID-19)".*

## Y goblygiadau yn sgîl gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y Llywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**25 Mehefin 2020**